

Paratoi ar gyfer dyfodol gwahanol - adeiladu ar ymateb y gymuned a gwirfoddoli adroddiad sesiwn

CYD-DESTUN

Trwy gydol mis Mai a Mehefin 2020, hwylusodd CGGC raglen o fforymau trafod ar-lein er mwyn deall y materion sy'n wynebu'r sector gwirfoddol yng Nghymru o ganlyniad i Covid-19, y posibilïadau gwahanol sy'n codi ar gyfer y dyfodol, a sut gallwn ni baratoi orau i gael y canlyniadau mae'r sector eisïau yn y dyfodol. Mae hyn yn adeiladu ar yr [wybodaeth gychwynnol](#) a gyhoeddodd CGGC ym mis Mai 2020.

Roedd cyfres o chwe sesiwn gyda phob un yn canolbwyntio ar bwnc gwahanol, a chynhaliwyd holiadur ehangach hefyd. Cafodd y rhain eu hyrwyddo ymysg aelodau CGGC ac roedd mynediad atynt am ddim.

Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar bedwar cwestiwn allweddol

- Pa effaith mae Covid-19 wedi ei chael?
- Sut gall hyn arwain at newid tymor hir- cadarnhaol a negyddol?
- Beth yw'r goblygiadau ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru?
- Beth all mudiadau gwirfoddol, CGGC, y llywodraeth, neu fudiadau eraill sy'n gwneud penderfyniadau ei wneud er mwyn helpu i'n harwain at ddyfodol gwell?

Paratowyd adroddiad cryno gan [Richard Newton Consulting](#) ar gyfer pob sesiwn, ynghyd ag adroddiad terfynol a oedd yn ceisio dod â'r prif themâu a'r camau gweithredu ynghyd. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu rhannu gyda'r sector ac eraill.

Mae'r adroddiadau hyn yn ceisio sefydlu themâu a chamau gweithredu yn hytrach na chreu crynodeb o beth gafodd ei ddweud. Maent yn adlewyrchu ymatebion yr arolygon a chyfraniadau yn ystod y digwyddiadau yn hytrach na sefyllfa CGGC neu Richard Newton Consulting. Ni allwn wirio a ydynt yn cwbl gywir neu ai canfyddiadau pobl ydynt.

Ar 21 Mai 2020, cynhaliwyd yr ail fforwm trafod a oedd yn archwilio'r pwnc o adeiladu ar ymateb y gymuned a gwirfoddoli. Cofrestrodd dros 130 o unigolion i gymryd rhan yn y fforwm - gan gynrychioli ystod eang o fudiadau o'r sector nid er elw. Roedd hyn yn cynnwys elusennau cofrestredig a chwmnïau budd cymunedol, ynghyd â mudiadau cefnogi gan gynnwys CGGC, Cyngorau Gwirfoddol Sirol, awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned.

Fel canfyddiadau'r sesiwn flaenorol am gydnerthedd ariannol, mae'n amlwg bod profiadau'r sector yn wahanol. Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau a gweithgareddau. Mae rhai wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses o gyflwyno ymateb brys i Covid-19 ac wedi wynebu galw mawr am eu gwaith; ar y llaw arall, mae mudiadau eraill wedi rhewi eu gweithredoedd dros dro gan ei bod yn amhosib cynnal gweithgareddau, yn arbennig y rheini sy'n benodol i leoliad, a chydymffurfio â'r rheolau cadw pellter cymdeithasol.

ADEILADU AR YMATEB Y GYMUNED A GWIRFODDOLI - PA EFFAITH MAE COVID-19 WEDI'I CHAEL?

Mae ymateb brys cymunedau ar lawr gwlad wedi bod yn ddigynsail yng nghyswllt graddfa'r ymatebion a'r cyflymder y cawsant eu sefydlu. Mae llawer o hyn wedi bod yn adweithiol ac wedi'i arwain gan y gymuned. Er enghraifft, mae Cyngorau Tref a Chymuned yn adrodd bod dros 15,000 o bobl yn gwirfoddoli yng Nghymru – ac mae PAVO'n adrodd bod dros 112 o grwpiau cymunedol ym Mhowys yn cefnogi dros 2000 o wirfoddolwyr. Roedd rhai o'r gwirfoddolwyr hyn eisoes wedi'u casglu ynghyd fel rhan o'r ymateb i Storm Dennis.

- Mae proffil gwirfoddolwyr wedi newid. Yng Nghaerdydd, oed canolrifol gwirfoddolwyr yw 36 ac mae 45% o wirfoddolwyr yn ddynion. Mae hyn yn garfan oedran sydd heb wirfoddoli'n ffurfiol yn draddodiadol.
- Er bod lefel sylweddol o'r ymateb y gymuned yn ddefnyddiol, arweiniodd hyn at rai ardaloedd daearyddol yn cael eu tangynrychioli mewn ymateb cymunedol ac roedd angen ymyrraeth fwy ffurfiol gyda'r y CGS a / neu Gynghorau Tref neu Gymuned yn helpu i wirfoddoli er mwyn sicrhau darpariaeth teg.
- Mae gweithio mewn partneriaeth wedi gwella ac mae gwirfoddolwyr wedi chwarae rôl allweddol yn hyn - yn arbennig wrth gysylltu â busnesau lleol (busnesau bach a chanolig yn aml) i sicrhau cymorth ychwanegol i'r aelodau agored i niwed mewn cymunedau.
- Mae rhai cyfleoedd gwirfoddoli wedi'u gohirio yn ystod y pandemig, ac roedd rhai gwirfoddolwyr yn teimlo nad oeddent yn gallu parhau i wirfoddoli mewn rolau penodol. Roedd hyn yn cynnwys gwirfoddoli mewn lleoliadau (ee gwirfoddoli mewn amgueddfeydd a chanolfannau celfyddydol) ynghyd â gwirfoddolwyr y grŵp gwarchod a oedd yn gorfod tynnu'n ôl o weithgareddau wyneb yn wyneb.
- Mae effaith rolau gwirfoddolwyr wedi bod yn ehangach na'r hyn a ragwelwyd pan gafodd y rôl wirfoddoli ei chreu. Er enghraifft, mae gwirfoddolwyr sy'n cefnogi'r grŵp gwarchod yn gwneud llawer iawn mwy na 'dewis a chario' cyflenwadau; yn hytrach, maen nhw wedi cysylltu â phobl / teuluoedd er mwyn helpu i gefnogi llesiant ehangach.
- Yn swyddogol, cafodd llawer o bobl a oedd eisiau gwirfoddoli eu cyfeirio at Gwirfoddoli Cymru er mwyn cofrestru. Wrth ystyried yr ymateb ar lawr gwlad, ni wnaeth llawer o'r unigolion a gofrestrodd ar Wirfoddoli Cymru gysylltu â'r cyfleoedd gwirfoddoli drwy'r sianel hon.
- Fe ymatebodd llawer o grwpiau gwirfoddol sefydledig yn gyflym iawn i Covid-19. Mae pryderon bod rhai o'r rhain wedi bod yn gweithredu y tu allan i'w hamcanion cyfansoddiadol. Mae pryderon am y capasiti sydd gan y grwpiau ansefydledig i fodloni gofynion diogelu a gofynion rheoleiddio eraill gan gynnwys yswiriant.

ADEILADU AR YMATEB Y GYMUNED A GWIRFODDOLI - SUT GALL HYN ARWAIN AT NEWID TYMOR HIR – CADARNHAOL A NEGYDDOL?

Yn gyffredinol, mae awydd i gynnal yr un lefelau ymateb gan gymunedau; ond er mwyn ei gynnal rydyn ni angen deall beth wnaeth ei alluogi. Mae adroddiadau clir bod panig Covid-19 wedi cymell pobl i wirfoddoli. Yn ychwanegol i hyn, adroddir bod llawer yn cael eu denu at helpu eu cymunedau eu hunain. Mae cwestiynau ynghylch a oedd y newidiadau i broffil oedran y gwirfoddolwyr yn ganlyniad i'r newidiadau sydyn, ond dros dro, i'r farchnad lafur, yn arbennig oherwydd y ffyrlo a phobl yn gweithio o gartref. A fydd yr angen sy'n gyrru'r cymhelliant i wirfoddoli yn cael ei gynnal?

O ddiddordeb:

- Mae rhai o'r grwpiau gwirfoddoli nawr yn dweud... Ein bod ni angen gwneud yn siŵr, lle mae grwpiau eisiau ffurfioli eu trefniadau llywodraethu, bod cymorth diduedd ar gael iddyn nhw, gan gynnwys dealltwriaeth o ymrwymiad tymor hwy hyn.
- Mae'n hollbwysig bod gwirfoddolwyr, a'r rheini y maent yn eu cefnogi, yn cael eu diogelu'n briodol. Mae'n amlwg bod angen galluogi i unrhyw ymateb cymunedol deimlo'n organig ac ystyried anghenion lleol; yn hytrach na'i fod yn cael ei lunio, ei reoleiddio a'i reoli gan gyrff allanol.
- Mae cyrff cyhoeddus wedi tynnu sylw at rôl bwysig gwirfoddolwyr o ran cyflawni cynlluniau Llesiant (a blaenoriaethau eraill). Bydd hyn yn werthfawr os bydd yr ymateb yn cael ei gynnal - ond mae angen ei fesur ynghyd â pharchu nad yw'r gwirfoddolwyr hyn eisiau cael eu rheoli'n ormodol. Mae hyn hefyd yn effeithio ar sut mae gweithgarwch gwirfoddoli ehangach Cymru yn cael ei fesur a'i gofnodi.

ADEILADU AR YMATEB Y GYMUNED A GWIRFODDOLI - BETH YW'R GOBLYGIADAU AR GYFER Y SECTOR GWIRFODDOL YNG NGHYMRU?

Yn y pen draw, gallai Cymru weld newid ffocws mewn gweithgarwch gwirfoddoli. Mae risg y gallai llawer o wirfoddolwyr deimlo na allant ddychwelyd i'w rolau parhaol tra bod cyfle unigryw i ymgysylltu â gwirfoddolwyr newydd. Mae'n bosib y bydd cymhelliant gwirfoddolwyr yn newid gyda llawer o'r gwirfoddolwyr newydd yn dymuno gwirfoddoli yn y

gymuned leol yn hytrach na chymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli traddodiadol.

Yn benodol:

- Bydd angen edrych ar rolau gwirfoddoli yng ngoleuni cadw pellter cymdeithasol. Bydd rhaid i rolau gwirfoddoli fod yn ddiogel, ond hefyd bydd rhaid i'r gwirfoddolwr deimlo'n ddiogel i allu dychwelyd. Wrth i gymdeithas ddychwelyd at 'normal newydd' mae angen i ni ddeall:
 - Sut mae gwneud yn siŵr bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol wrth wirfoddoli ac mewn hyfforddiant cysylltiedig.
 - Sut gellir ymestyn gwirfoddoli i'r Grŵp gwarchod. Mae rhai mudiadau'n adrodd gan ddefnyddio technoleg ddigidol er mwyn i'r grwpiau hyn gyflawni rhai gweithgareddau wrth hunan-ynysu ee cyngor ac eiriolaeth. Er bod manteision i'r gymuned ehangach, mae hyn hefyd yn gallu bod yn allweddol o ran lleihau'r unigrwydd y mae'r unigolion hyn yn eu profi.
 - Sut gall gwirfoddolwyr ddychwelyd i leoliadau (ee amgueddfeydd, canolfannau celfyddydau, siopau elusen) ac a oes angen newid demograffeg y sylfaen gwirfoddolwyr presennol ee os yw'r rhan fwyaf o'r gwirfoddolwyr presennol yn cynnwys y rheini mewn categorïau agored i niwed.
- Mae rolau gwirfoddoli yn ystod y cyfnod o ymateb i Covid-19 wedi cynnwys mwy na dim ond rhoi amser ac mae mudiadau'n gwerthfawrogi hyn. Mae adroddiadau bod Cynghorau Tref a Chymuned yn cefnogi trwy brynu hamperi pen-blwydd i blant, ac ychwanegu at fesuryddion ynni. Mae gan hyn ofynion o ran adnoddau sydd y tu hwnt i hwyluso'r broses o wirfoddoli.
- Mae proffil y rheini sy'n gwirfoddoli wedi newid – ond a ellir cynnal hyn? Wrth i bobl ddychwelyd i'r gwaith, a oes ffordd y gallant ddefnyddio eu sgiliau proffesiynol / galwedigaethol yn eu cymunedau lleol.

ADEILADU AR YMATEB Y GYMUNED A GWIRFODDOLI - BETH ALL MUDIADAU GWIRFODDOL, CGGC, Y LLYWODRAETH, NEU FUDIADAU ERAILL SY’N GWNEUD PENDERFYNIADAU EI WNEUD ER MWYN HELPU I’N HARWAIN AT DDYFODOL GWELL?

Mae llawer o syniadau ar gyfer gweithredu yn deillio o’r sesiwn, ac fe allai CGGC ac aelodau eu hystyried gyda rhanddeiliaid eraill er mwyn cynnig y sail orau bosibl i adeiladu ar ymateb y gymuned a gwirfoddoli.

- ▶ Wrth gynrychioli’r sector i randdeiliaid eraill sydd yn rhan o’r ymateb i Covid-19, mae’n hanfodol bod ehangder y sector, a rolau gwahanol y gwirfoddolwyr yn cael eu dangos yn llawn. Dylai hyn gynnwys mapio heriau y mae carfannau gwahanol o’r sector yn eu hwynebu ac y gellir eu rhannu gyda rhanddeiliaid ehangach er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ynghylch cynllunio gwasanaethau.
- ▶ Mae angen datblygu a dosbarthu canllawiau a chynghor am ddiogelu er mwyn galluogi i bobl ddal ati i wirfoddoli yng Nghymru tra ei bod yn cael ei heffeithio gan Covid-19. Mae hyn yn cynnwys diogelu ac ymgysylltu â’r rheini a ystyrir yn ‘agored i niwed’ yng nghyswllt Covid-19, ynghyd â helpu i ddatblygu a pharatoi ar gyfer gwirfoddoli mewn rolau sy’n cadw pellter cymdeithasol.
- ▶ Mae angen sefydlu canllawiau ehangach am y gofynion rheoleiddio ehangach y mae grwpiau gweithredu gwirfoddol yn eu hwynebu (gan gynnwys iechyd a diogelwch) a sut gellir cyflawni’r rhain yn effeithiol, ac efallai gyda’i gilydd.
- ▶ Mae’n amlwg bod Cyngorau Tref a Chymuned wedi chwarae rôl bwysig yn ymateb y gymuned. Nid yw pob ardal yn cael ei gwasanaethu gan y rhain. Mae ymarfer mapio angen amlygu’r anghydraddoldebau o ran darpariaeth.
- ▶ Rydyn ni angen mecanwaith i ddeall yn llawn y cymhelliant i wirfoddoli a chymryd rhan mewn ymateb cymunedol – a sut y gellir cynnal hyn. Yn benodol, mae angen edrych ar y pethau sy’n sbarduno pobl i wirfoddoli’n lleol a barn gwirfoddolwyr ynghylch ymgysylltu â chyrrff seilwaith, ac adrodd iddynt.
- ▶ Mae angen edrych ar rôl chyrrff seilwaith o ran recriwtio ac adrodd ar wirfoddolwr yng ngoleuni’r uchod.

0300 111 0124

wcva.cymru

Cyhoeddwyd Mehefin 2020

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Rhif cofrestru'r elusen 218093

Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299

Cofrestrwyd yng Nghymru